
Cafcass Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Adroddiad Blynyddol

## 2018-2019



# Cynnwys

Rhagair gan y Prif Weithredwr 3

Datblygu sut rydym yn Gweithio 4

Arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru 7

Darparu Gwasanaethau 9

Cyfranogi gyda Phlant a Phobl Ifanc 14

Ansawdd, Dysgu a Gwella 15

Rhagolwg o'r Flwyddyn i Ddod 18






© Hawlfraint y Goron 2019
WG38591 ISBN digidol 978-1-83933-497-9

# Rhagair gan y Prif Weithredwr

Rwy'n falch iawn o'n gweithlu a'i ymrwymiad i sicrhau anghenion a hawliau plant yw canolbwynt ein gwaith. Ymroddiad a phroffesiynoldeb ein holl staff sy'n ein galluogi i ddarparu gwasanaeth amserol ac o ansawdd da, er gwaethaf y lefel uchel barhaus o waith rydym yn ei rheoli. Mae'n glod iddynt bod Arolygiaeth Gofal Cymru, yn yr adroddiad adolygu diweddar yn cydnabod bod:

"Swyddogion Cafcass Cymru yn ymrwymedig i sicrhau'r canlyniadau gorau i blant, ac mae hyn wedi helpu'r sefydliad i reoli'r cynnydd yn ei lwyth gwaith. Mae'r sefydliad wedi wynebu'r her o weithio gyda niferoedd cynyddol o blant ac wedi darparu ymateb amserol a gwasanaeth o ansawdd da, ac mae ganddo'r gallu i adeiladu ar ei gryfderau presennol."

Yn ein gwaith, rydym yn ymdrechu i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i bob plentyn, ei deulu a'r llysoedd teulu yng Nghymru, ac roedd yn dda bod Arolygwyr wedi canfod bod ansawdd cyffredinol y gwasanaeth a ddarparwn yn "dda".

Ein blaenoriaeth yw i blant fod wrth wraidd ein holl waith fel bod eu 'llais' yn cael ei glywed mewn achosion cyfraith teulu. Yn yr un modd, rydym am gynnwys plant a phobl ifanc yn natblygiad strategol ein gwasanaeth ac rydym yn gwerthfawrogi'n fawr y cyfraniad ystyrlon y mae aelodau o'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc wedi'i wneud i'n gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae hon wedi bod yn flwyddyn brysur arall ac mae ein llwyddiannau allweddol yn cynnwys:

- Cryfhau ac ehangu amrywiaeth y cyfleoedd dysgu a datblygu i staff
- Cynnal Cynhadledd Staff, a gynhaliwyd gan aelodau o'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc
- Cyflwyno Fframwaith Sicrhau Ansawdd, Dysgu a Gwella
- Gweithredu gweithdrefn gwyno ddiwygiedig gan ganolbwyntio ar ddatrys yn gynnar
- Cynnwys pobl ifanc ar ein paneli recriwtio staff
- Cynnwys rhanddeiliaid allweddol wrth ddatblygu canllawiau ar gam-drin domestig ac anfodlonrwydd neu wrthodiad cyswllt
- Gweithio gydag Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield a Phrifysgol Abertawe i rannu ein data i lywio gwelliannau yn y system cyfiawnder teuluol ehangach.

Ein huchelgais yw bod yn sefydliad sy'n hyrwyddo ac yn croesawu diwylliant o ddysgu a gwella parhaus. Mae'r adborth gwerthfawr a gawn gan bobl sy'n defnyddio ein gwasanaeth, ein rhanddeiliaid, ynghyd â'r canfyddiadau a nodwyd yn Adroddiad Arolygu AGC, yn ein galluogi i barhau i adeiladu ar ein cryfderau a chanolbwyntio ar wella ein gwasanaeth ymhellach.

Mae ein Pwyllgor Cynghori yn gwneud cyfraniad sylweddol wrth ein cynorthwyo i wella a datblygu'r gwasanaethau a ddarparwn. Felly, hoffwn ddiolch i'r aelodau am eu cyfraniad sylweddol ac yn enwedig i Jackie Murphy, am y ffordd effeithiol a heriol y mae'n cadeirio'r cyfarfodydd.

Bydd y flwyddyn i ddod yn dod â heriau a chyfleoedd newydd ond byddwn yn parhau i roi blaenoriaeth i sicrhau bod plant yn parhau i fod wrth wraidd ein holl waith.

**Nigel Brown**
**Prif Weithredwr**

# Datblygu sut rydym yn Gweithio



## Canolbwyntio ar y Plentyn, Rhaglen Cyfraith Breifat

Yn dilyn y cynllun peilot llwyddiannus yn 2017-18, mae ein dull Dadansoddiad o'r Effaith ar y Plentyn (CIA) bellach yn cael ei ymgorffori mewn ymarfer ledled Cymru. Mae'r CIA yn mabwysiadu dull datrys anghydfod o ran achosion Adran 7, sy'n ceisio hyrwyddo mwy o gysondeb i'r plentyn a defnyddwyr gwasanaethau sy'n oedolion. Mae'n ceisio ystyried yr anghydfod o safbwynt y plentyn ac i ragweld yr effaith yn y dyfodol hefyd.

Gwnaethom gyd-ddatblygu ein Canllawiau Ymarfer Cam-drin Domestig ynghyd â goroeswyr ac arbenigwyr o'r sector, ein Cynghorwyr Llys Teulu a chydweithwyr polisi Llywodraeth Cymru. Mae'r canllawiau ymarfer bellach wedi'u cyhoeddi ac maent yn ceisio cryfhau ein hymarfer o ran cam-drin domestig a hyrwyddo mwy o arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan arwain at argymhellion cadarn a diogel i blant.

Gwnaethom ddatblygu a gweithredu ein canllawiau Ymarfer Anfodlonrwydd neu Wrthodiad Cyswllt, sy'n ceisio annog Cynghorwyr Llys Teulu i ystyried y rhesymau amrywiol pam y gall plant fod yn anfodlon cael perthynas â rhiant neu wrthod hyn. Ein man cychwyn yw sicrhau nad yw'r plentyn a/neu'r rhiant mewn unrhyw berygl o bryderon diogelu gan gynnwys cam-drin domestig. Gwnaethom gynnwys amrywiaeth o gyngor arbenigol gan academyddion a gweithwyr proffesiynol wrth ddatblygu'r canllawiau, gan gynnwys comisiynu Prifysgol Caerdydd i baratoi adolygiad llenyddiaeth ar 'Ddieithrio Rhieni'.

Gan adeiladu ar y gwaith gwrthdaro niweidiol rydym eisoes wedi'i wneud, y flwyddyn nesaf byddwn yn datblygu'r maes hwn ymhellach ac yn ceisio paratoi canllawiau ymarfer a datblygu ein staff yn y maes pwnc cymhleth a phwysig hwn.



## Iechyd a Llesiant Staff

Rydym yn gweithredu gweithio hyblyg ac yn hyrwyddo ymreolaeth i gynorthwyo'r defnydd gorau o amser a hyrwyddo llesiant, lleihau teithio diangen a sicrhau'r rheoli amser gorau posibl.

Rydym yn canolbwyntio ar fuddsoddi mewn iechyd a llesiant a sefydlu rhaglen o waith a hyd yma rydym wedi datblygu:

- Cylchlythyrau iechyd a llesiant staff.
- Darparu gweithdai pwrpasol i sicrhau'r llesiant gorau posibl ar gyfer perfformiad; canolbwyntio ar reoli amser a chydnerthedd.
- Pecynnu a hyrwyddo hyfforddiant iechyd a llesiant defnyddiol sydd ar gael yn Llywodraeth Cymru sy'n cynorthwyo ein staff orau ac yn annog y rhai sydd â diddordeb mewn ymwybyddiaeth ofalgar i hwyluso sesiynau rheolaidd mewn swyddfeydd.

Rydym wedi cyflwyno hyrwyddwyr iechyd a llesiant ym mhob maes gweithredol, er mwyn cynorthwyo wrth gyfeirio a chefnogi staff ac annog iechyd a llesiant yn gyffredinol.

Rydym wedi diwygio ein gweithdrefn oruchwylio i gynnwys llesiant ar yr agenda, gan newid y diwylliant i gyfarfodydd cefnogi Ymarferwyr a chyflwyno adborth amser real ar gryfderau a datblygu ymarfer sy'n gysylltiedig â'n Model Adolygu Ymarfer Sicrhau Ansawdd, Dysgu a Gwella (QALI) (archwilio mewnol).



## Adroddiadau Ymholiadau Diogelu (SER)

Mae'r cynllun peilot SER, sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau diogelu i blant a theuluoedd, wedi'i gwblhau'n llwyddiannus. Dangosodd y cynllun peilot fudd cyffredinol o ran darparu gwasanaethau ac o ganlyniad mae saith swydd Swyddog Diogelu wedi'u sefydlu. Mae'r model yn mabwysiadu dull integredig rhwng meysydd gweithredol i ddarparu gwasanaeth diogelu effeithiol ac ymatebol.

## Gwelliannau Digidol a Dadansoddol

Rydym yn cydnabod gwerth a phwysigrwydd y wybodaeth a gasglwn yn ystod ein gwaith gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder teuluol yng Nghymru. Yn ystod 2018-19, dechreuodd ein Tîm Digidol drafod sut y gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon yn well i'n hysbysu am ansawdd ein gwasanaethau a nodi sut y gallwn eu gwella.

Gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau data, mae cyfres newydd o ddulliau gwybodaeth busnes wedi'u datblygu i gynorthwyo rheolwyr ac uwch arweinwyr i ddeall a rheoli ein gwasanaethau a llywio sgyrsiau â'n partneriaid mewnol ac allanol.

Mae'r Tîm Digidol wedi cynorthwyo nifer o brosiectau arloesi hefyd, gan ailgynllunio prosesau a thrawsnewid gwasanaethau'n ddigidol. Maent wedi bod yn rhan allweddol o'r gwaith o ddatblygu a gweithredu ein gwelliannau cynllunio/cofnodi achosion a chwynion yn ein cronfa ddata graidd (IRIS).

Yn ogystal â'r gwaith hwn rydym wedi dechrau'r broses o uwchraddio IRIS. Bydd y prosiect mawr hwn yn ein galluogi i barhau i gefnogi IRIS a pharhau i'w ddatblygu mewn ymateb i anghenion a gwelliannau o ran gwasanaethau. Disgwylir i'r prosiect mawr a chymhleth hwn gael ei gwblhau yn ystod hydref 2019.

Ar ddechrau 2019, yn sgil Strategaeth TGCh Llywodraeth Cymru a mentrau Digidol, Data a Thechnoleg, dechreuodd staff Cafcass Cymru gael budd o offer TGCh newydd, wedi'i ddiweddaru a gwasanaethau cwmwl. Bydd y gwelliannau hyn yn golygu gwelliannau sylweddol o ran ein gallu i barhau i arloesi wrth gefnogi datblygiadau gwasanaeth, gwella defnyddioldeb ar gyfer staff a bod yn ffactor allweddol wrth ddarparu trefniadau gweithio mwy hyblyg i'n staff.

## Gweithdrefnau Diogelu

Rydym wedi diwygio a diweddaru ein gweithdrefn ddiogelu, ar gyfer plant ac oedolion, i adlewyrchu deddfwriaeth yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Diogelu plant ac oedolion yw'r llinyn aur sy'n rhedeg drwy holl ymyriadau Cafcass Cymru â theuluoedd ac mae'r weithdrefn wedi'i diweddaru yn sicrhau proses glir ar gyfer sicrhau bod yr holl staff yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion a bod hyn yn cael ei gydnabod yn gyfrifoldeb i bawb.




## Cydweithio ag Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield

Rydym wedi bod yn gweithio'n rhagweithiol gyda Sefydliad Nuffield, Prifysgol Caerhirfryn a Cafcass (Lloegr) i ddatblygu Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield (NFJO) ar gyfer Cymru a Lloegr. Nod cyffredinol yr NFJO fydd gwella'r System Cyfiawnder Teuluol drwy'r defnydd o dystiolaeth ymchwil, ynghyd â mathau eraill o wybodaeth a dealltwriaeth broffesiynol, er mwyn cefnogi penderfyniadau er budd pennaf plant.

Un o elfennau pwysig y datblygiad hwn fu trosglwyddo ein cronfa ddata gwasanaeth craidd (IRIS) i'r Banc Data Cyswllt Gwybodaeth Ddienw Ddiogel (SAIL) ym Mhrifysgol Abertawe a fydd yn galluogi i'n setiau data dienw gael eu cysylltu â setiau data eraill o fewn SAIL gan gynnwys Cafcass (Lloegr). Bydd y set ddata a rannwyd â SAIL yn cefnogi datblygiad yr NFJO, ei Gwasanaeth Dadansoddeg Llwyfan Data a'i hagenda ymchwil 5 mlynedd. Edrychwn ymlaen at gyhoeddi adroddiad ymchwil cyntaf yr NFJO – "Ganwyd i Ofal – Cymru" – yn hydref 2019.

Mae Banc Data SAIL yn flaenllaw yn y byd o ran storio diogel a chadarn a defnydd o ddata dienw sy'n seiliedig ar unigolion ar gyfer ymchwil i wella iechyd, llesiant a gwasanaethau. Mae ei fanc data o ddata dienw am boblogaeth Cymru yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol.



# Arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru





Yn ystod 2018-19, cafodd Cafcass Cymru ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Adolygodd yr arolygiad ansawdd ac effeithiolrwydd ymarfer ar achosion unigol yn ogystal ag arweinyddiaeth a llywodraethu'r sefydliad ar lefel weithredol a strategol. Gwnaed hyn drwy adolygiadau helaeth o ffeiliau achos, gan olrhain ym mhob maes gweithredol, cyfweld â staff, partneriaid allweddol a rhanddeiliaid, arsylwi ymarfer a chyfarfod a siarad â phlant a theuluoedd.

Roedd canfyddiadau'r arolygiad, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019, yn gadarnhaol iawn. Amlygodd yr adroddiad nifer o gryfderau gan gynnwys:

- Barnwyd bod ansawdd cyffredinol yr ymarfer yn dda gyda pheth ymgysylltu ardderchog â phlant a theuluoedd. Roedd sylfeini ar waith i wella ansawdd yr ymarfer ymhellach.
- Gwelwyd bod staff yn ymrwymedig iawn i gyflawni'r canlyniadau gorau i blant hyd yn oed mewn cyd-destun cynnydd cyson yn nifer yr atgyfeiriadau. Roedd y staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi, a chadarnhaodd yr adolygiad fod gan Cafcass Cymru ddiwylliant cadarnhaol.
- Canfuwyd bod llais y plentyn wrth wraidd yr hyn a wnawn.
- Dangosodd y sefydliad ei fod yn uchelgeisiol ac yn ymrwymedig i hyrwyddo dysgu a gwelliant parhaus.
- Cafwyd bod Uwch Reolwyr yn arloesol, yn ymatebol ac yn gweithio'n dda gyda phartneriaid allweddol a rhanddeiliaid.

- Roedd tystiolaeth o gydweithio da ag awdurdodau lleol a'r farnwriaeth o ran rhannu dulliau a dylanwadu ar ymarfer ehangach, ac o berthnasoedd gwaith effeithiol gyda Cafcass (Lloegr) ac ADSS Cymru i hyrwyddo anghenion plant a theuluoedd.
- Roedd y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc wedi gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygu'r sefydliad.


Amlinellodd yr arolygiad bedwar mater lle mae angen gwelliant pellach, ac a fydd yn cynorthwyo yn ein cam datblygu nesaf. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwella ein cysylltiadau a'r broses o gyfeirio i wasanaethau gwybodaeth i deuluoedd.
- Parhau i wella ansawdd y broses o gynllunio achosion a chofnodi.
- Hyrwyddo ymhellach yr amrywiaeth a'r defnydd o'r adnoddau gwaith uniongyrchol sydd ar gael i ymarferwyr.
- Chryfhau'r gydberthynas waith â Swyddogion Adolygu Annibynnol.

Mae cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu gyda'r nod o fynd i'r afael â'r materion hyn mewn modd ystyrlon ac amserol.

**'Gwelsom fod swyddogion Cafcass Cymru yn ymrwymedig i sicrhau'r canlyniadau gorau i blant.'**

**'Mae llais y plant a'r bobl ifanc wrth wraidd yr ymarfer.'**






# Darparu Gwasanaethau

## Nifer y plant y gwnaethom weithio gyda nhw

Yn ystod 2018-19, gwnaethom weithio gyda 9,700 o blant a phobl ifanc, sef cynnydd o 8% o'i gymharu â'r 9,000 yn 2017-18. Bu cynnydd o bron 30% yn nifer y plant a fu'n ymwneud â Cafcass Cymru ers 2015-16. Roedd y rhan fwyaf o'r plant y buom yn gweithio gyda nhw y llynedd (87%) yn 11 oed neu'n iau.

### Plant a fu'n ymwneud â Cafcass Cymru




Mae ein gwaith wedi'i rannu'n ddau faes: cyfraith gyhoeddus a chyfraith breifat. Mae'r galw a roddir ar bob maes gwaith yn amrywio'n sylweddol ac mae'r wybodaeth ganlynol yn rhoi trosolwg o lefel y galw am y gwasanaethau hyn.

## Cyfraith Gyhoeddus


Cyfanswm nifer y plant a oedd yn ymwneud ag achosion cyfraith gyhoeddus yn 2018-19 oedd 3,160, sef cynnydd o 3% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae ceisiadau cyfraith gyhoeddus wedi aros ar lefel uchel yn gyson dros y tair blynedd diwethaf, yn dilyn cynnydd sylweddol yn 2015-16, gydag 1,775 o geisiadau wedi'u gwneud y llynedd.

### Ceisiadau Cyfraith Gyhoeddus




Y prif ysgogwr yng ngwaith cyfraith gyhoeddus yw ceisiadau Adran 31 (gofal). Bydd awdurdod lleol yn cyflwyno cais Adran 31 i'r llys pan fo ganddo bryderon sylweddol am ddiogelwch neu les plentyn. Bydd yn gwneud cais i fynd â'r plentyn i mewn i ofal neu i gael cyfrifoldeb am oruchwylio gofal y plentyn. Cawsom 1,018 o geisiadau yn 2018-19.

### Ceisiadau Adran 31







## Llety Diogel ac Amddifadu o Ryddid

Mae plant sy'n rhan o'r ceisiadau hyn yn cynrychioli rhai o'r plant mwyaf agored i niwed yng Nghymru. Rydym yn cynnal dadansoddiad blynyddol o'r ceisiadau hyn ac yn ystod 2018-19 roedd 13 yn llai o achosion o gymharu â 2017-18 yn nifer y ceisiadau llety diogel a chynnydd o 20 o geisiadau a wnaed mewn perthynas ag amddifadu o ryddid.


### Llety Diogel







### Ceisiadau Amddifadu o Ryddid




## Cyfraith Breifat

Cyfanswm nifer y plant a oedd yn ymwneud ag achosion Cyfraith Breifat yn 2018-19 oedd 6,597, sef cynnydd o 11% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae achosion cyfraith breifat yn codi pan fo anghydfod ar ôl i rieni wahanu o ran trefniadau plant, megis lle dylai'r plentyn fyw, pwy mae'r plentyn yn ei weld, a/neu na all aelodau o'r teulu ei ddatrys heb ymyrraeth gan y llys. Yn y gwrandawiad cyntaf, rydym yn cwrdd â'r partïon i drafod unrhyw gyfleoedd i ddod i gytundeb a sicrhau bod unrhyw drefniant ar gyfer eu plentyn yn ddiogel ac er lles gorau'r plentyn. Os nad oes modd dod i gytundeb oherwydd yr anghydfod rhwng y rhieni neu faterion diogelu, gall y llys ofyn i ni gynnal asesiad a llunio adroddiad i gynorthwyo'r llys i wneud penderfyniad.

Mewn cyfraith breifat, mae'n ofynnol i ni gynnal ymholiadau diogelu mewn perthynas â mwyafrif llethol y ceisiadau a wneir i'r Llys Teulu. Mae'r ymchwiliadau hyn yn aml yn cynnwys ceisio gwybodaeth gan yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol, a chynnal cyfweliadau dros y ffôn gyda'r partïon (aelodau o'r teulu sy'n ymwneud â'r cais i'r llys).

Diben ein gwaith ymholiad diogelu yw nodi unrhyw risg i'r llys ei hystyried wrth wneud penderfyniadau am blentyn. Cynyddodd nifer yr adroddiadau a gwblhawyd gennym mewn perthynas â'n gwaith ymholiadau diogelu o 4,130 i 4,622 (12%) gan arwain at gyfanswm nifer y ceisiadau'n codi heibio i'r niferoedd a brofwyd yn flaenorol cyn cyflwyno Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012.


Yn ogystal â'n gwaith ymholiad diogelu, gallai'r llys ofyn i ni roi dadansoddiad mwy manwl o sefyllfa plentyn.

Gwneir hyn fel arfer drwy geisiadau am adroddiad Adran 7, neu benodiad Rheol 16.4 (achos cyfraith breifat cymhleth lle mae'r llys yn gwneud y plentyn yn barti i'r achos drwy benodi Gwarcheidwad i'r plentyn).

Gellir gofyn i ni hefyd roi adroddiad Adran 7 atodol hefyd. Dros y tair blynedd diwethaf rydym wedi gweld cynnydd sylweddol mewn gwaith o'r fath, gyda chynnydd o 22% yn 2016-17 wedi'i ddilyn gan gynnydd pellach o 3% yn 2017-18 a chynnydd o 12% yn 2018-19.

## Gwaith Cyfraith Breifat Pellach

2016-17 2017-18 2018-19




## Llwyth Gwaith Cyfunol

Mae swm y gwaith rydym wedi'i gwblhau wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Yn 2018-19 cwblhawyd 8,246 darn o waith ar draws Cyfraith Gyhoeddus a Phreifat.

Mae'r swm ar gyfer 2018-19 yn gynnydd o 8% ar 2017-18 a oedd, yn ei dro, yn gynnydd o 10% ar 2016-17.

## Llwyth Gwaith Cafcass Cymru




## Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Mae gennym bedwar Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) sy'n mesur amseroldeb dyrannu a dyddiadau ffeilio llys, gan ymdrin â phrif feysydd statudol ein gwaith. Mae gan bob DPA darged o 95%. Dyma'r DPA ar gyfer y cyfnod mis Ebrill 2018 i fis Mawrth 2019:

**DPA1 – Amseroldeb dyrannu ceisiadau Adran 31.** Dyrannwyd 95.28% o achosion Adran 31 o fewn dau ddiwrnod gwaith gydag amser dyrannu cyfartalog o 0.89 diwrnod gwaith.


**DPA 2 – Amseroldeb dyrannu adroddiadau Adran 7.** Dyrannwyd 95.64% o adroddiadau Adran 7 o fewn pum diwrnod gwaith gydag amser dyrannu cyfartalog o 1.73 diwrnod gwaith.

**DPA 3 – Adroddiadau Adran 7 a gwblhawyd erbyn eu dyddiad ffeilio llys.** Gwnaethom ffeilio 85.75% o adroddiadau Adran 7 erbyn eu dyddiad ffeilio llys. Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i wella'r perfformiad a gofnodir yn y maes hwn.

**DPA 4 – Adroddiadau Diogelu a gwblhawyd erbyn eu dyddiad ffeilio llys.** Gwnaethom ffeilio 95.41% o Adroddiadau Diogelu erbyn eu dyddiad ffeilio llys – sef cynnydd o fwy na 2% o gymharu â ffigur 2017-18.

## Cyllideb

Ein cyllideb ar gyfer 2018-19 oedd £10,267,000, yr oedd y rhan fwyaf ohono, sef 92%, yn gostau staffio. Roedd yr 8% a oedd yn weddill o'n cyllideb yn talu am ein costau gweithredu a'r gwasanaethau cymorth teulu a orchmynnwyd gan y llys.



# Cyfranogi gyda Phlant a Phobl Ifanc

Mae ein strategaeth gyfranogi 'Dy Lais' yn ein cefnogi i adeiladu ar ryngweithio o ddydd i ddydd ein staff â phlant a phobl ifanc, gan eu galluogi i ddylanwadu ar y ffordd y maen nhw, yn ogystal â phlant yn y dyfodol, yn derbyn ein gwasanaethau.

Mae gan 'Dy Lais' dri maes ffocws strategol yn ogystal â chefnogi'r nodau sefydliadol ehangach:

- Gwrando a Dysgu – rydym yn gwrando ar eich barn ac yn dysgu o'r hyn rydych yn ei ddweud wrthym.
- Cynnwys a Hysbysu – rydym yn cael gwybod pa wybodaeth rydych ei heisiau a sut rydych am ei derbyn.
- Cydweithio a rhannu – rydym yn gweithio gyda sefydliadau fel bod eich llais yn cael ei glywed yn y system cyfiawnder teuluol.

Yn 2019 bydd strategaeth Dy Lais yn dod i gasgliad. Yn 2019-20 bydd gwaith yn cael ei wneud i sicrhau bod ein diwylliant o gyfranogi gyda phlant a phobl ifanc yn parhau drwy ein hymrwymiad i siarter y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc ar weithio gyda phlant a sicrhau bod y nodau cyfranogi yn sail i'n cynllun strategol pum mlynedd.

Eleni rydym wedi dyfnhau ein perthynas â'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc ac maent wedi parhau i chwarae rhan fawr mewn llawer o'n llwyddiannau cyfranogi. Rydym yn falch iawn hefyd ein bod wedi gallu cynorthwyo â'r gwaith parhaus i recriwtio dau gynrychiolwyr o Gymru i'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc.

Gyda'n gilydd rydym wedi cyflawni'r canlynol:

- Cyflwyno plant a phobl ifanc yn ein prosesau recriwtio ar gyfer ymarferwyr a staff uwch, gan sicrhau mai'r bobl rydym yn eu recriwtio yw'r hyn y byddai pobl ifanc yn ei ddisgwyl.
- Cyd-ddylunio a chyd-gynnal cynhadledd staff Cafcass Cymru ar y thema Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar gyfer dros 200 o staff. Rhoddodd hyn gyfle nid yn unig i'r staff ddod at ei gilydd i drafod y materion hyn ond hefyd i ddysgu am brofiadau personol ac arfer gorau.
- Datblygu ein cymeriadau Cafcass Cymru ymhellach, gan adlewyrchu amrywiaeth ehangach o ethnigrwydd, anableddau a rhywioldeb, gan gynrychioli dinasyddion amrywiol Cymru yn well a sicrhau y gall pobl ifanc uniaethu â'n cyfathrebu a theimlo'n gyfforddus yn ein swyddfeydd.
- Rydym wedi trosi amrywiaeth o awgrymiadau gwych a luniwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc i'n cynnig dysgu a datblygu ac rydym wedi cyflwyno'r 'awgrymiadau gwych i rieni' yn ein proses cyfraith breifat.
- Cynorthwyodd y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc â'n rhaglen gynefino i staff, gan godi ymwybyddiaeth o'u gwaith a hyfforddi'r mynychwyr ar ymgysylltu â phobl ifanc.



# Ansawdd, Dysgu a Gwella


## Canmoliaeth a Chwynion

Rydym yn gwerthfawrogi pob adborth: mae cael gwybod yr hyn rydym yn ei wneud yn dda a nodi meysydd i'w gwella yn ein helpu i gryfhau ein gwasanaethau. Rydym yn ceisio mynd ati'n barhaus i wella'r gwasanaeth rydym yn ei ddarparu ac rydym yn croesawu'r cyfleoedd dysgu sy'n codi o ymchwiliadau i gwynion i ystyried pa gamau gweithredu y mae angen i ni eu cymryd fel sefydliad. Fel rhan o'n hymrwymiad i ddysgu o'n hadborth, diwygiwyd ein gweithdrefn gwyno ac rydym bellach wedi cyflwyno datrys yn gynnar er mwyn sicrhau yr ymatebir i ddefnyddwyr gwasanaethau yn brydlon.

Yn ogystal, mae'r wybodaeth a gawsom o'r adborth wedi arwain at ddatblygu Dogfen Disgwyliadau Cyfathrebu ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a diwygio ein gweithdrefn ddiogelu. Mae ein gwybodaeth am gwynion wedi symud i lwyfan electronig er mwyn darparu llwyfan modern a hygyrch i ddadansoddi tueddiadau, nodi dysgu a llywio meysydd datblygu.

Yn ystod y flwyddyn, cawsom 19 o gwynion oddi wrth rieni, aelodau eraill o'r teulu, cyfreithwyr a'r farnwriaeth. Rydym yn cofnodi pob canmoliaeth er mwyn llywio gwelliannau i'r gwasanaethau. Roedd llawer o'r adborth cadarnhaol a gafwyd gan rieni yn canmol ein hymarferwyr am y ffordd gadarnhaol roeddent wedi cyflawni eu gwaith, gan gynnwys y cymorth a roddwyd i'w plentyn/plant mewn cyfnod a all fod yn anodd iawn. Cafwyd canmoliaeth gan farnwyr a chyfreithwyr hefyd am safon adroddiadau ein staff a'u proffesiynoldeb yn ystod achosion llys.

Gwnaethom weithio gyda 9,700 o blant a phobl ifanc yn 2018-19 ac yn y cyfnod hwn, ni wnaethom dderbyn unrhyw gwynion gan blant na phobl ifanc.



O'r 9700 o blant a phobl ifanc a'u teuluoedd y gweithiwyd gyda nhw, cawsom 103 o gwynion gan oedolion ac ymchwiliwyd yn ffurfiol i 22 ohonynt. Cafodd y gweddill eu datrys heb orfod cynnal ymchwiliad ffurfiol. Roedd pob un o'r 22 o ymchwiliadau ffurfiol yn ymwneud â'n gwaith cyfraith breifat, a chafodd chwe chwyn naill ai eu cadarnhau'n llawn neu cafodd elfennau o'r cwynion eu cadarnhau.

## Rhaglen QALI

Mae'r rhaglen Sicrhau Ansawdd, Dysgu a Gwella (QALI) yn sicrhau ansawdd yn ein sefydliad tra hefyd yn cofnodi ac yn cyflawni ar feysydd o ddysgu a gwella.

Drwy'r rhaglen, rydym wedi ailalinio adnoddau i gryfhau ein gallu ac adnoddau i oruchwylio ac ysgogi'r gwaith yn y maes hwn.

Rydym wedi gweithredu methodoleg archwilio mewnol newydd: Adolygiad Ymarfer Ebrill 2018. Mae'r model yn ddull cynhwysol sy'n seiliedig ar gryfderau o ran ysgogi ymarfer, mae'n nodi'r hyn rydym yn ei wneud yn dda ond hefyd y meysydd dysgu a datblygu pwysig y gallwn ganolbwyntio arnynt i'w gwella. Mae'r data hyn yn cael eu cofnodi'n electronig sy'n golygu y gallwn wedyn eu defnyddio'n effeithiol i grynhoi'r hyn rydym yn ei wneud yn dda a thargedu meysydd i'w gwella. Yn 2018-19, cynhaliwyd tri Adolygiad Ymarfer gyda'n staff ymarferwyr, yn ymwneud â chynllunio a chofnodi achosion, adroddiadau ac arsylwi ymarfer.

Dyma'r cryfderau allweddol sy'n seiliedig ar dystiolaeth:

- Cysylltu priodol ag asiantaethau allweddol a gweithwyr proffesiynol.
- Gwasanaeth amserol, cymesur ac ymatebol.
- Dadansoddi risg.
- Asesiadau sy'n canolbwyntio ar y plentyn.
- Argymhellion clir sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Argymhellion diogel.

Meysydd i'w datblygu a nodwyd:

- Ansawdd cynlluniau achos.
- Defnydd o ddulliau asesu mewn ymarfer ac wrth roi tystiolaeth o ystyried amrywiaeth.



O ganlyniad gwnaethom ddatblygu a gweithredu dull newydd o gynllunio achosion, gan gynnwys dogfen ganllaw fewnol, cymorth cof sy'n canolbwyntio ar rinweddau unigryw'r plentyn, ynghyd â hyrwyddo awgrymiadau gwych ar amrywiaeth a luniwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc. Rydym hefyd yn datblygu hyfforddiant pwrpasol ar gyfer ein hymarferwyr ar amrywiaeth ac ar ansawdd ysgrifennu adroddiadau gan gynnwys dulliau asesu a dadansoddi.


I gefnogi ein model Adolygu Ymarfer ymhellach rydym wedi gweithredu gweithdrefn oruchwylio ddiwygiedig, gan gryfhau trafodaethau sy'n ymwneud ag ymarfer, adborth amser real, rheoli perfformiad a blaenoriaethau ymarfer.

## Dysgu a Datblygu

Un elfen bwysig o gefnogi ein staff yw sicrhau bod ganddynt fynediad i'r dysgu a datblygu cywir. Credwn fod dysgu a datblygu yn flaenoriaeth ac rydym wedi ystyried safbwyntiau staff. Er mwyn gwella, datblygu ac ymgorffori dysgu a datblygu yn ein sefydliad rydym wedi penodi Uwch-reolwr Dysgu a Datblygu.

Rydym wedi cysylltu â phrifysgolion lleol ac mae gennym fyfyrwyr gradd Meistr sy'n gwneud ymchwil o fewn Cafcass Cymru ac rydym wedi cyflwyno proses gysgodi a chyfnewid gydag awdurdodau lleol.

Mae cynnwys staff ac ymgynghori â hwy yn parhau i fod yn agwedd allweddol ar alluogi cyfleoedd datblygu i bob aelod o staff.
Ym mhob un o'n datblygiadau 2018-19 roedd ein staff yn rhan o'r prosiectau a'r ffrydiau gwaith, gan gyfrannu a chyflawni ar feysydd gwaith allweddol.





# Rhagolwg o'r Flwyddyn i Ddod

Yn 2019-20 byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth amserol a chyson i blant, teuluoedd a llysoedd ledled Cymru yn wyneb gofynion cynyddol a roddir ar ein gwasanaeth.

Byddwn yn parhau i archwilio technolegau a datblygiadau gwasanaeth arloesol er mwyn gwella sut rydym yn gweithio a grymuso a chefnogi ein gweithlu i weithio'n hyblyg, yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae gwaith wedi'i gynllunio i ddatblygu ein system rheoli achosion ac edrych ar ffyrdd y gellir datblygu ein rhaglen QALI ymhellach.

Bydd cyfrannu at gynllunio gwasanaethau a datblygiad ehangach gyda'n rhanddeiliaid yn galluogi nod ar y cyd o wella canlyniadau ar gyfer y plant a'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed yng Nghymru. Edrychwn ymlaen at gryfhau ein partneriaethau â'r NFJO, Cafcass Lloegr a thimau polisi Llywodraeth Cymru yn ogystal â gweithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc ar ein rhaglen ar y cyd o ddatblygu gwasanaethau.

Bydd ein partneriaethau a'n gwaith i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn hanfodol bwysig yn 2019-20 wrth i ni geisio gweithredu ar yr argymhellion a nodwyd yn Arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru, gweithio gyda'r NFJO a SAIL ym Mhrifysgol Abertawe i ddyfnhau ein dealltwriaeth o'n data i gryfhau ein gwasanaeth a gwella'r System Cyfiawnder Teuluol ehangach.

Ynghyd ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, mae Cafcass Cymru wedi cynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu ymgyngoriadau barnwrol ar ddatblygiadau Cyfraith Breifat a Chyhoeddus. Edrychwn ymlaen at gasgliad yr ymgyngoriadau a gweithredu'r ffrydiau gwaith.

Yn 2019-20 byddwn hefyd yn datblygu cynllun strategol Cafcass Cymru wedi'i adnewyddu, sef cynllun a fydd yn datblygu gyda'n staff a'n partneriaid i lywio'r math o sefydliad y byddwn yn ymdrechu i'w sicrhau dros y pum mlynedd nesaf.

